

Crynodeb o brif ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cyngorau Cymuned a Thref

Rhagarweiniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“y Ddeddf”) yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, perfformiad a llywodraethiant.

Mae'r pecyn sylweddol o ddiwygiadau yn cynnwys diwygio etholiadol, grym cymhwysedd cyffredinol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys; cydweithio mwy cyson a chydlynol a gweithio ar y cyd; uno gwirfoddol a chynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol.

Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021 ac mae'n darparu ar gyfer trefn raddol o gyflwyno gwahanol ddarpariaethau. Pan mae dyddiadau rhoi ddarpariaethau penodol ar waith yn hysbys, cawsant eu nodi yn y crynodeb isod.

Mae'r canlynol yn nodi meysydd sy'n debygol o fod o ddiddordeb ar gyfer cynghorau cymuned a thref.¹

Etholiadau

Pleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed a Dinasyddion yr UE a dinasyddion gwledydd eraill

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer ymestyn yr etholfraint llywodraeth leol i ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed allu cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac unrhyw bleidlais yng Nghymru sy'n defnyddio'r etholfraint llywodraeth leol megis etholiadau ethol meiri a refferenda.

Am y tro cyntaf, ym mis Mai 2021, mae gan bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n drigolion cyfreithlon hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Byddant yn gallu pleidleisio hefyd yn etholiadau llywodraeth leol 2022. Ni fyddant yn gallu pleidleisio mewn unrhyw isetholiadau llywodraeth leol a gynhelir cyn Mai 2022.

Mae'r Ddeddf yn ymestyn yr etholfraint llywodraeth leol i ddinasyddion o unrhyw wlad ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Adran 4(3) *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, 1983 (DCB)* ac y gallant fodloni'r Swyddog Cofrestru Etholiadol Lleol (SCE) eu bod yn byw yn yr ardal y dymunant gofrestru a phleidleisio ynddi, o dan Adran 5 DCB 1983.

¹ Nid yw hon yn rhestr gyflawn o ddarpariaethau'r Ddeddf. I weld y Ddeddf gyfan ewch i: <https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/section/47/enacted>. I weld y memorandwm esboniadol llawn ewch i: <https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld12877-em/pri-ld12877-em-e.pdf>

Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol – cynnig dewis: Y Cyntaf i'r Felin neu'r Bleidlais Sengl Drosaglwyddadwy

Mae'r Ddeddf yn darparu y gall pob prif gyngor benderfynu eu hunain ar y system bleidleisio i'w defnyddio, boed YCIF neu PSD. Bydd prif gyngor yn parhau i ddefnyddio'r system bleidleisio YCIF bresennol hyd nes ei fod yn penderfynu newid. Bydd rhaid i benderfyniad i newid system bleidleisio gael cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm y cyngorwyr ar y cyngor (boed yn bresennol ac yn pleidleisio ar gynnig i newid ai peidio). Os yw cyngor wedi ystyried a gwrthod cynnig i newid y system bleidleisio, ni all y cyngor ail-ystyried y mater yn ystod yr un cylch etholiadol.

Ar ôl newid i system bleidleisio wahanol gwaherddir prif gyngor rhag symud yn ôl hyd nes y cynhaliwyd o leiaf ddau etholiad arferol o dan y system newydd.

Byddai newid o un system bleidleisio i un arall yn golygu cynnal adolygiad trefniadau etholiadol newydd o ardal y cyngor, fyddai'n cael ei gynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFDLC).

Yr etholiad cyntaf y gallai prif gyngor ddefnyddio'r system PSD ar ei gyfer yw'r etholiadau llywodraeth leol arferol yn 2027.

Y system bleidleisio ar gyfer etholiadau cyngorau cymuned yw'r Cyntaf i'r Felin o hyd.

Tymhorau pum mlynedd

Mae'r Ddeddf yn newid cylch etholiadol prif gynghorau a chynghorau cymuned o dymhorau pedair i rai pum mlynedd. Byddai hynny'n golygu fod etholiadau llywodraeth leol yn defnyddio tymhorau pum mlynedd yn yr un modd â Senedd y DG (fel y'u pennwyd gan Ddeddf Seneddau Tymhorau Penodol 2011) ac ar gyfer y Senedd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cofrestru etholiadol

Mae'r Ddeddf yn darparu grym i SCEion ychwanegu unigolyn at y gofrestr etholiadol heb iddynt orfod gwneud cais. Byddai SCEion yn cael eu hannog i gael gwybodaeth/data unigolion nad ydynt ar y gofrestr etholiadol o ffynonellau megis cofnodion y dreth gyngor. Pan mae'r swyddog cofrestru yn fodlon fod y wybodaeth am berson nad yw ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol yn gywir a bod ganddo/i hawl i gael eu cofrestru, gall y swyddog benderfynu cofrestru'r person heb gais, ar yr amod y bodlonir rhai gofynion. Byddai'n rhaid i'r swyddog cofrestru roi gwybod i'r unigolyn y byddant yn cael eu cynnwys ar y gofrestr. Nid yw'r darpariaethau hyn ar waith ar hyn o bryd, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r gymuned etholiadol i sicrhau y cafodd unrhyw faterion perthnasol eu hystyried a'u datrys cyn gweithredu unrhyw ddarpariaethau trwy Orchymyn.

Ymgeisyddiaeth

Mae'r Ddeddf yn diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeisyddion mewn etholiadau llywodraeth leol i alluogi dinesydd unrhyw wlad i gynnig eu henw ar gyfer etholiad. Mae hynny ar yr amod y bodlonir rhai meini prawf cymhwyso eraill, megis oed a phreswyliaeth. Bydd yr holl feini prawf anghymwyso'n parhau i fod yn berthnasol.

Caniatáu i staff cynghorau sefyll ar gyfer eu cyngor eu hunain

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer galluogi holl swyddogion a gweithwyr cyngor, ac eithrio'r rhai sydd mewn swyddi gwleidyddol gyfyngedig, i gynnig eu henwau mewn etholiad ar gyfer eu cyngor eu hunain. Ni fyddant ond yn gorfod ymddiswyddo o'u swydd gyflogedig gyda'r cyngor os cânt eu hethol. Bydd hyn yn ehangu'r gronfa o ymgeisyddion posib tra'n sicrhau nad oes unrhyw fuddiannau croes unwaith y cafodd yr ymgeisydd ei e/hethol.

Meini prawf anghymwysu ar gyfer cynnig enw i fod yn gynghorydd

Mae'r Ddeddf yn diwygio'r darpariaethau anghymwysu yng Nghymru er mwyn anghymwysu unigolion rhag cynnig eu henwau mewn etholiad, na chael swydd fel aelod o brif gyngor neu gyngor cymuned yng Nghymru, os ydynt yn gaeth i ofynion hysbysu Deddf Troseddau Rhywiol 2003 neu orchymyn a wnaed yn ei sgil.

Grym Cymhwysedd Cyffredinol

Mae'r Ddeddf yn rhoi grym cymhwysedd cyffredinol i gynghorau cymuned cymwys, gyda'r bwriad o greu llywodraeth leol fwy effeithiol, galluog a blaengar.

Bydd y grym cyffredinol yn galluogi cynghorau cymuned cymwys i weithredu er lles gorau eu cymunedau, sicrhau arbedion a chynnig gwerth am arian. Byddant hefyd yn gallu cynhyrchu arian trwy godi am ddarparu gwasanaethau arddewisol ac yn gallu masnachu.

Bernir y bydd y grym cyffredinol yn galluogi cynghorau cymuned cymwys i fod yn fwy blaengar, ac i symud o sefyllfa lle y mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i rym penodol er mwyn gallu cyflawni gweithgaredd penodol, i sefyllfa lle y rhagdybir y gallant wneud rhywbeth onid oes cyfyngiad statudol yn ei rwystro.

Yr amodau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned eu bodloni er mwyn gallu cyhoeddi eu bod yn 'gyngor cymuned cymwys' yw:

- cafodd o leiaf ddau draean o gyfanswm aelodau'r cyngor eu hethol, boed mewn etholiad arferol neu mewn isetholiad,
- mae gan glerc y cyngor pa gymhwyster bynnag neu ddisgrifiad o gymhwyster ag a fynir gan Weinidogion Cymru trwy reoliadau, ac
- os yw'r cyngor yn bodloni'r amod archwilio.

Bodlonir yr amod archwilio os:

- yw barn fwyaf diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) ar gyfrifon y cyngor:
 - yn farn ddiamod gan ACC ar gyfrifon y cyngor, ac y
 - cafodd ei derbyn gan y cyngor yn ystod y cyfnod 12 mis a ddiweddodd ar y diwrnod y mae'r cyngor yn pasio'r cynnig i ddod yn gyngor cymuned cymwys
- yw barn yr ACC ar gyfrifon y cyngor a ddaeth yn union cyn y farn y cyfeiriwyd ati uchod hefyd yn farn ddiamod.

Daw'r gallu i weithredu'r grym cymhwysedd cyffredinol ar gyfer cynghorau cymuned cymwys ar waith ar 5 Mai 2022. Cyn hynny, cynhelir ymgynghoriad ar ganllawiau a'r rheoliadau yn nodi 'cymhwyster proffesiynol perthnasol' ar gyfer clercc. Rhagwelir y bydd hwn yn gymhwyster sector benodol megis y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA).

Bwriedir diddymu'r grym llesiant, a ddarperir yn adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, pan ddaw'r darpariaethau yn ymwneud â'r grym cymhwysedd cyffredinol ar waith ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar 5 Mai 2022. Hyd nes y diddymir y grym llesiant gall cynghorau cymuned a thref barhau i ddefnyddio'r grym. Bwriedir gwneud darpariaeth i sicrhau y gall unrhyw beth a gychwynnwyd gan gynghorau cyn, ac sy'n parhau wedi, dyddiad diddymu'r grym llesiant barhau o dan y grym hwn hyd nes y caiff ei gwblhau neu hyd nes y mae cyngor yn penderfynu dod yn gyngor cymuned cymwys. Fodd bynnag, ni ellir dechrau unrhyw beth yn defnyddio'r grym llesiant ar ôl iddo gael ei ddiddymu.

Cyfranogiad y cyhoedd

Y bwriad yw annog ystod ehangach a mwy amrywiol o aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Rhaid i brif gynghorau baratoi, ymgynghori ar, cyhoeddi ac adolygu 'strategaeth cyfranogiad y cyhoedd', gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithio; sut mae'n gwneud penderfyniadau; a sut all pobl leol ddilyn trafodaethau, lleisio eu barn a sicrhau y rhoddir sylw iddynt. Daw'r darpariaethau hyn ar waith ym mis Mai 2022. Nid oes unrhyw reidrwydd ar gyngor cymuned i lunio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, er y dylent ystyried sut maen nhw'n galluogi'r cyhoedd i gyfrannu a chymryd rhan.

Cynllun Deisebau

Mae disgwyl hefyd i brif gynghorau lunio cynllun deisebau yn esbonio sut fydd yn trin a delio â deisebau, gan gynnwys e-ddeisebau. Daw'r darpariaethau hyn ar waith ym mis Mai 2022. Nid oes unrhyw angen i gyngor cymuned gael cynllun deisebau.

Mynediad i gyfarfodydd

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn haws cynnal cyfarfodydd trwy nifer o drefniadau gwahanol, gan gynnwys cyfarfodydd aml-leoliad lle y mae pob unigolyn yn mynychu cyfarfodydd rhithiol a hybrid – lle y mae nifer o unigolion yn mynychu'n bersonol mewn lleoliad dynodedig ac eraill yn mynychu'n rhithiol o nifer o leoliadau eraill. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth barhaol ar gyfer cyfarfodydd o bell (aml-leoliad) a chyhoeddi dogfennau yn electronaidd, y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol, (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, a'r bwriad yw y daw ar waith ar 1 Mai 2021 i gyd-fynd â diwedd cyfnod Rheoliadau Awdurdodau Lleol, (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020. Bydd y darpariaethau hyn yn berthnasol hefyd i gynghorau cymuned.

Mae cyhoeddi dogfennau yn electronaidd yn cynnwys gwneud gwybodaeth allweddol ar gael cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, ac o fewn saith niwrnod gwaith i ddyddiad cyfarfod y cyngor cymuned, ac mae'n rhaid iddo gynnwys: enwau aelodau oedd yn bresennol; ymddiheuriadau am absenoldeb; datganiadau o fuddiannau; unrhyw benderfyniadau a wnaed a chanlyniad unrhyw bleidleisiau. Ni fyddai hyn yn berthnasol i benderfyniadau a gymerwyd yn breifat, neu lle y byddai datgelu'r wybodaeth yn groes i unrhyw ddeddfiad.

Cyfranogiad

O fis Mai 2022 rhaid i'r bobl sy'n llywyddu mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref sy'n agored i'r cyhoedd roi cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol gynnig sylwadau am unrhyw fater sy'n cael ei drafod yn y cyfarfod oni bai fod hynny'n debygol o effeithio'n andwyol ar gynnal y cyfarfod yn effeithiol.

Adroddiadau Blynyddol Cynghorau Cymuned

O fis Ebrill 2022 bydd gan gynghorau cymuned a thref ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor. Rhaid i'r adroddiad cyntaf gyfeirio at flwyddyn ariannol Ebrill 2021- Mawrth 2022 a rhaid ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl mis Ebrill 2022.

Ymddygiad aelodau

Nid yw'r ddyletswydd a osodir ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn prif gynghorau, fel yr amlinellwyd yma, yn berthnasol i gynghorau cymuned a thref. O fis Mai 2022 rhaid i arweinyddion grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp. Wrth wneud hynny, rhaid i arweinyddion grŵp gydweithredu â phwyllgor safonau'r prif gyngor wrth gyflawni eu swyddogaethau a hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel. Yn eu tro, mae gan bwyllgor safonau prif gyngor swyddogaethau newydd o dan y Ddeddf i sicrhau bod arweinyddion grwpiau yn gallu derbyn cyngor a hyfforddiant i gefnogi eu dyletswyddau newydd i fonitro i ba raddau y mae arweinyddion grwpiau yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.

Mae eisoes yn wir fod rhaid i bob cyngor cymuned fabwysiadu cod ymddygiad a disgwylir i bob cynghorydd cymuned ddangos safonau ymddygiad uchel, boed yn rhan o grŵp gwleidyddol neu beidio.

Hyfforddi aelodau a staff cyngorau cymuned

Bydd gan gynghorau cymuned a thref ddyletswydd i ystyried hyfforddiant o 5 Mai 2022 ar gyfer cynghorwyr a staff cyngorau cymuned a chyhoeddi'r cynlluniau hyfforddiant cyntaf erbyn mis Tachwedd 2022.

Nid yw'n fwriad ceisio sicrhau bod pob un cynghorydd o reidrwydd yn derbyn hyfforddiant ar yr un materion; y nod yn hytrach yw creu sefyllfa lle y mae gan y cynghorwyr fel grŵp, a'r staff fel corff, y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen arnynt i weithredu'n effeithiol. Rhodda hyn ystyriaeth i'r ffaith nad oes gan rai cynghorau cymuned ond un aelod o staff, y cler, ac mae rhai cynghorau cymuned llai eraill yn rhannu eu cler gydag un neu ragor o gynghorau cymuned eraill.

Diddymu pleidleisiau cymunedol

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer diddymu pleidleisiau cymunedol, a chyflwyno system o ddeisebau yn eu lle. Yr eithriad yw pleidleisiau llywodraethiant cymunedol, sef rhai sy'n galluogi'r gymuned i gynnal pleidlais ar gynnig i sefydlu neu ddiddymu cyngor cymuned neu i grwpio gyda chymunedau eraill o dan un cyngor cymuned cyffredin.

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Mae gan CFfDLC y grym i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru am newidiadau i ardaloedd a threfniadau etholiadol yn dilyn adolygiad. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r cyfrifoldeb i CFfDLC benodi eu prif weithredwr eu hunain, er ei bod hefyd yn rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru benodi'r prif weithredwr pan fu'r swydd yn wag am chwe mis neu fwy, gan ymgynghori gyda CFfDLC cyn gwneud y penodiad.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diwygio adran 48 Deddf 2013 i roi grym i Weinidogion Cymru gyfarwyddo CFfDLC i beidio cynnal neu i atal adolygiad o dan Ddeddf 2013.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i uno os dymunant wneud hynny ond nid yw'n galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi uno i ddaduno, nac i ddaduno'n rhannol yn ddiweddarach. Mae'r Ddeddf yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r anhyblygrwydd hwn ac i ddarparu ar gyfer cymryd camau wedi uno a daduno.